

CANLYNIADAU HOLIADUR

"A FYDDI DI'N MENTRO NÔL I'R LLWYFAN YN 2022?"

1 Mawrth 2022



RHAN 1: CEFNDIR

Wrth i nifer helaeth o bwyllgorau eisteddfodau lleol ddechrau agor eu drysau o'r newydd eleni, trefnodd **Cymdeithas Eisteddfodau Cymru** ar ran yr aelodau, ymgynghoriad ar ffurf holiadur o'r enw "A fyddi di'n mentro nôl i'r llwyfan yn 2022?".

Nid ar chwarae bach mae trefnu eisteddfod, ond gydag ystyriaethau COVID yn parhau'n gysgod ym meddyliau nifer, a phwysau ariannol yn hefyd yn ffactor allweddol, bwriad yr ymgynghoriad oedd holi barn eisteddfodwyr boed yn drefnwyr, yn gystadleuwyr neu'n gynulleidfa er mwyn helpu'r pwyllgorau gwirfoddol drafod a chynllunio eu harlwy o'r newydd ar gyfer 2022 a 2023.

Methodoleg

Cyfnod yr ymgynghoriad oedd Ionawr 27ain - Chwefror 28ain 2022; ac fe'i lanswyd drwy ddatganiadau i'r wasg, eitem ar **Dros Frecwast ar BBC Radio Cymru, Prynhawn Da ar S4C**, drwy e-bost ac ar wefan a chyfryngau cymdeithasol y Gymdeithas gyda hyd at 69.6% o'r ymatebion yn dweud eu bod wedi clywed am yr holiadur ar Facebook a Twitter.

Denfyddiwyd Google Forms ar gyfer llenwi'r ffurflen; a chynigiwyd opsiwn Word (Cymraeg a Saesneg) i'r rhai oedd yn llai hyderus yn defnyddio technegol.

Ymatebion

Cyfanswm ymatebion = 46

- 45 yn Gymraeg yn defnyddio Google Forms
- 1 yn Saesneg drwy'r post

Mae hyn yn cyfateb i 38.4% o'r eisteddfodau lleol, sy'n cymharu'n ffafriol gydag ymatebion arolygon yn gyffredinol lle disgwylir rhwng 5% a 30% o ymatebion.

Nid yw'r data yn gwahaniaethu rhwng trefnwyr, cystadleuwyr a dilynwyd eisteddfodau, nac ar sail rhyw ac oedran. Mae'r prif ganfyddiadau yn awgrymu nifer o arwyddion positif wrth drafod a chynllunio ar gyfer y misoedd a'r blynyddoedd sydd i ddod.

Trosolwg o'r prif ganfyddiadau

Ceisio cael syniad i weld a fyddai diddordeb i gystadlu o'r newydd eleni oedd prif bwrpas yr holiadur; ac mae arwyddion gobeithiol iawn wrth bori trwy'r ymatebion -

- 67.4% yn debygol iawn neu'n debygol o gystadlu ar lwyfan unwaith eto
- er bod canmol i arlwy digidol y pwyllgorau gynigiodd yr opsiwn yn ystod cyfnod y panedmig, dim ond 38% oedd wedi ymddiddori neu wedi rhoi cynnig ar gystadlaethau gwaith cartref neu rithiol.
- wrth gynllunio i'r dyfodol, mae 60.9% wedi mynegi diddordeb i weld datblygiadau hybrid fel rhan o opsiynau'r dyfodol

Mae'r adroddiad yma yn fwriadol yn cynnwys sylwadau gan yr ymatebwyr; gan obeithio y bydd eu syniadau yn gymorth wrth gynllunio i'r dyfodol.

RHAN 2: MANYLION YR AROLWG

Lle rydych chi'n byw?

Roedd mwyafrif yr ymatebion yn cynrychioli trawstoriad daearyddol eang yng Nghymru; boed yn gefn gwlad neu mewn ardaloedd mwy poblog. Derbyniwyd un ymateb o Stockholm.

Dyma'r prif ardaloedd, gyda mwyafrif yn byw yn nalgylch Aberystwyth - Aberystwyth, Bethesda, Betws-yn-rhos, Biwmares, Blaenau Ffestiniog, Bro Dysynni, Caerdydd, Caernarfon, Conwy, Cwmann, Dihewyd, Dinbych, Dyffryn Aeron, Dyffryn Ceiriog, Llandrindod, Llandysul, Llanllwni, Lledrod, Merthyr Tudful, Morfa Nefyn, Pencarreg, Pontarddulais, Pontrhydfendigaid, Pwllheli, Rhuthun. Rhydargaeau, Rhydymain, Stockholm

Pa eisteddfod rydych chi'n ei gefnogi?

Wrth holi pa eisteddfodau y byddai'r sawl oedd yn ymateb yn eu cefnogi, roedd nifer yn nodi dalgylch 25 milltir neu Ogledd/De Cymru fel dewisiadau, sy'n awgrymu eu bod yn taflu'r rhwyd yn eang.


Dyma'r eisteddfodau penodol cafodd eu henwi (ond nid yw'r rhestr yn adlewyrchu pob eisteddfod a chymuned oherwydd maint y sampl) – Aberdaron, Abergorlech, Abergynolwyn, Aberteifi, Betws yn Rhos, Bro Aled, Bryngwenith, Caerdydd, Calan Mai, Aberystwyth, Capel y Groes, Chwilog, Clynnog Fawr, Cwmystwyth, Dyffryn Ceiriog, Dyffryn Ogwen, Eisteddfod Genedlaethol, Eisteddfod y Dysgwyr, Felindre, Garndolbenmaen, Gŵyl Cerdd Dant, Llambod, Llandrindod, Llandudoch, Llandyfaelog, Llanegryn, Llanfair Talhaearn, Llangadog, Llanllwni, Llanllyfni, Llanrwst, Llanuwchllyn, Llanwrtyd, Môn, Morlan, Mynytho, Penrhyn-coch, Pontrhydfendigaid, Pontsenni, Powys, Pwll-glas, Rhydlewis, Swyddffynnon, Trallong, Tregaron, Urdd, Y Cymoedd, Y Fenni, Y Ffôr, Y Tymbl, Yr Hendy.

Arferion cystadlu

Wrth helpu cynllunio i'r dyfodol, roedd hi'n bwysig ceisio gweld sawl un oedd wedi cystadlu yn y gorffennol, ac mewn cyd-destun cystadlaethau llwyfan, i gael gwell dealltwriaeth faint ohonynt oedd wedi cystadlu fel unigolion neu mewn partïon/corau.


A oeddech yn arfer cystadlu mewn eisteddfodau lleol?

46 ymateb




A oeddech yn arfer cystadlu fel unigolyn, mewn côr, parti neu grŵp?

46 ymateb



Canran fechan o blith y sampl sydd erioed wedi cystadlu, felly wrth holi barn pam bod pobol yn mwynhau steddfota, mae'r sylwadau yn cynnig cyfle i ni gynllunio ar gryfderau cynnal eisteddfodau oherwydd diddordeb y sawl sydd wedi ymateb.

Dyma'r prif ymatebion pam fod pobol yn mwynhau cystadlu:



Ymhlith yr ymatebion eraill roedd –

"Mae'r holl Eisteddfodau ledled Cymru yn bendant wedi datblygu fy hyder fel person a chwrdd â phobl arbennig iawn dros y blynyddoedd."

"Dwi'n hoffi perfformio yn fawr"

"Caru canu, cymdeithasu, y wefr a'r cyffro o fod ar y llwyfan, ennill!"

*"Mae'n helpu corau bach i fagu hyder"
"Cadw'r meddwl yn fywiog, dysgu cerddoriaeth newydd, trafeilio, profiadau gwahanol/newydd."*

*"Gwneud ffrindiau oes, arian poced"
"Iechyd meddwl, gwaith tîm gyda chriw o ffrindiau"*

"Dwi'n ymateb i hwn dros fy merch sy'n 17 oed ac wedi cystadlu mewn niferoedd o

eisteddfodau lleol dros ganolbarth a gogledd Cymru. Mae'r golled yn enfawr a hithau'n ymgeisio i fynd i Brifysgol Caerdydd i astudio Perfformio. Byddai cael eisteddfodau lleol yn rhoi'r cyfle i gael bod nôl ar ben llwyfan. Er bod hi wedi cymryd rhan mewn cystadlaethau rhithiol ei geiriau hi ei hun ydi, nad ydi o'n tynnu'r gorau allan ohona i gan fy mod i'n gwybod ga i dro arall i neud yn well. O dan amodau eisteddfod mae'r pwysau i neud yn iawn tro cynta ac mae hi wrth ei bodd yn derbyn ymateb y gynulleidfa'n fyw."

"I taught/lectured in Cambridgeshire for over 20 years and could not get children/young people to sing. I came back to Powys and delighted in the performances, the confidence, the enthusiasm. Just wonderful!!!"


Cystadlu eleni

Dyma brif ffocws yr arolwg oherwydd gofid rhai o drefnwyr eisteddfodau'n lleol wrth baratoi a chynllunio neuaddau i gwrdd â'r disgwyliadau. Yn naturiol mae rheoliadau yn ymwneud â COVID-19 hefyd yn parhau i newid, felly mae'n ddyddiau cynnar i werthfawrogi pa effaith fydd y llacio diweddaraf yn ei gael ar hyder cystadleuwyr a chynulleidfaeodd fel ei gilydd.

Yn galonogol mae bron i hanner yr ymatebion yn nodi'n glir y byddant yn "debygol iawn" o gystadlu eto eleni; a gyda'r rhai dicioodd "tebygol" gwelwn fod 67.4% yn awyddus i droedio ein llwyfannau a chystadlu unwaith eto eleni. Dim ond 6.5% sy'n annhebygol o wneud.

A ydych chi'n ystyried cystadlu mewn eisteddfod leol eleni?


46 ymateb



Gofynnwyd i bawb nodi pa ystyriaethau fyddai'n dylanwadu ar eu penderfyniad i gystadlu neu fynychu eisteddfod o'r newydd.

Materion iechyd a diogelwch yn ogystal â lleoliad y digwyddiad yw'r prif ffactorau, ond gwelir hefyd bod nifer ddim yn pryderu gan eu bod o'r farn y byddai mesurau priodol yn eu lle gan bwyllgorau wrth liniaru'r disgwyliadau.

Dyma'r prif ganfyddiadau –



Ambell sylw atodol

"Mae yn hollol bwysig cael yr holl ganllawiau iechyd a diogelwch yn ei lle."

"Un peth nad oes neb yn ei ystyried yn fy marn i yw gwobrau'r adrannau llên. Pan fydd rhywun yn cystadlu ar ganu neu lefaru, gallant fynd a pherfformio'r un gân mewn llu o eisteddfodau, gan ennill £30 neu £40 neu weithiau dipyn mwy na hynny yn bob un. Ond dydy hyn ddim yn bosibl i'r rhai sy'n cystadlu ar lenyddiaeth. Beth sy'n cael ei gynnig - £10 am englyn a thelyneg, yr eisteddfod yn mynnu'r hawl ar y darn a dim modd defnyddio'r gwaith yna i gystadlu."

"Dim ystyriaethau - jyst isho steddod yn ô!!"

"Ansicrwydd ynghylch canllawiau iechyd a diogelwch"

"Maint y gwobrwyon yn sicr yn helpu fy merch sy'n ceisio arbed arian i fynd i brifysgol"

"Cefnogi ardal leol"

"Côr heb ail ddechrau ymarfer. Llawer o waith trefnu asesiad risg. Aelodau yn dal yn bryderus am covid."

"Apêl y testunau, lleoliad yr eisteddfod."


"Our off-stage competitions in 2021 were really well supported. All will depend on the Covid situations. Hopefully we will go ahead with the full eisteddfod if the local schools feel that it is safe to do so. If not, then we will organise the off-stage competitions again this year."

Eisteddfodau Rhithiol a thestunau Gwaith Cartref

O ganlyniad i'r panedmig bu'n rhaid i'r mwyafrif o'r boblogaeth addasu eu ffyrdd o weithio a chymdeithasu, a gwelwyd ychydig dros tua 20% o'n heisteddfodau lleol yn mentro i fyd digidol gan gynnig arlwy rhithiol neu gystadlaethau gwaith cartref. I'r rhai fentrodd, gwelwyd diddordeb aruthrol yn nifer y rhai fu'n cystadlu neu wyllo drwy gyfrwng digidol.


A wnaethoch chi gystadlu yn rhithiol?

46 ymateb



A wnaethoch chi gystadlu mewn cystadlaethau gwaith cartref?

46 ymateb




Er bod gwerthfawrogiad i bob ymdrech digidol, dim ond 38% fentrodd i gystadlu, gyda'r mwyafrif yn nodi'n glir bod yn well ganddyn nhw eisteddfod draddodiadol gyda chyfle i gystadlu ar lwyfan.

Serch hynny mae'n werth nodi wrth ystyried cynlluniau i'r dyfodol bod 60.9% wedi mynegi diddordeb i weld datblygiadau hybrid o ryw fath fel rhan o'r opsiynau; tra bo eraill yn llai brwdfrydig am gynigion o'r fath.

Ffactorau i'w hystyried bydd ceisio sicrhau'r wefr o'r perfformiadau ar lwyfannau traddodiadol, ac ystyried ymestyn cynulleidfaoedd lle bo'n briodol drwy ddefnydd o dechnoleg. Bydd ffactorau amgylcheddol/teithio/cynladwyedd ac iechyd yn bwysig hefyd.

Mae lle i gredu y bydd rhai eisteddfodau i'r dyfodol yn datblygu'n naturiol fel digwyddiadau hybrid gan gynnig cyfleoedd digidol ochr yn ochr ag eist...od lwyfan draddodiadol. A yw hyn yn apelio atoch?
46 ymateb



Dyma gasgliad o sylwadau am gynnyrch digidol –

"Mae yn syniad da cael Eisteddfodau yn ddigidol ond does dim byd gwell na pherfformio mewn neuadd bentref, capel neu bafiliwn yn llawn o bobl"

"Hoffwn feddwl mai dros dro y mae'r cystadlu digidol, ac y gall eisteddfodau fynd yn ôl yn ddigwyddiadau byw fel yr oedden nhw."

"Mae'n debyg y byddai cystadlu'n ddigidol yn ddefnyddiol ar gyfer cystadlaethau llên hyd yn oed pan fydd canu a llefaru yn fyw ar y llwyfan"

"Mae'n haws i mi achos fy mod i'n byw yn Sweden."

"Dwi wedi cael digon ar chwarae i sgrin, pwynt mynd i Eisteddfodau yw cael cynulleidfa fyw."

"Nid ydych yn cael yr yn wefr wrth ganu'n ddigidol. Does dim yn curo perfformio o flaen cynulleidfa fyw a chael gweld a theimlo'i hymateb wrth i chi ddod oddi ar y llwyfan!"

"O dan yr amgylchiadau presennol, mae hynny'n syniad da, cyn belled ag y bo'r dechnoleg yn addas ac yn weithredol"

"Gwell gen i Steddfod go iawn le mae cyfle i sgwrsio a chymdeithasu."

"Wedi mwynhau gwyllo'r eisteddfod ar y we, a medru mynd nôl i'w 'wyllo pan yn gyfleus."

"Roeddwn yn rhan o bwyllgor a drefnodd dwy eisteddfod gwaith cartre rhithiol a'r ddwy wedi denu nifer fawr o gystadleuwyr a'r ddwy yn llwyddiannus iawn."

"Mae'r nerfusrwydd o fod o flaen cynulleidfa yn hytrach nag o flaen camera yn eich cartref eich hun yn hollol wahanol."

"Wedi joio'r arlwy'n fawr, ond does dim i gymharu gyda chynnwrf a hwyl cyrraedd y maes yn gyffredinol a chefn y pafiliwn yn arbennig!"

"Dim ond bod eisteddfodau wyneb yn wyneb yn digwydd hefyd. Profiad a sgiliau hollol wahanol sydd wrth berfformio adre i gamera Mam!"

Syniadau i'r dyfodol

Gofynnwyd am sylwadau a syniadau cyffredinol all fod o gymorth wrth drafod cynlluniau i'r dyfodol. Gwelir yma gymysgedd o sylwadau hen a'r newydd, yr awydd i gynnal traddodiadau ac eraill yn awgrymu bod angen datblygu yma a thraw.

Dyma'r prif sylwadau, heb eu nodi mewn trefn arbennig –

"Yn bendant mae angen symud Eisteddfodau ymlaen i'r dyfodol a denu mwy o bobl i wrando. Angen apelio mwy o gystadlaethau mae pobl am ei fwynhau."

"Angen gwell gwobrau a hwyrach cydweithio mwy gyda'r Eisteddfod Genedlaethol ar Urdd?"

"Mwy o gystadlaethau i rai dros 25 oed"

"Mwy o'r Beibl"

"Mwy o ddewis oddi ar y llwyfan."

"Mwy o ryddiaith, dim digon i gymharu â barddoniaeth"

"Dim angen newid yn fy marn i!"

"Agored am y flwyddyn a dim testun na gwneud dewisiadau i'r cystadleuwyr gan ei fod wedi bod yn flwyddyn heriol ac efallai gwersi canu ayyb wedi dod i stop!"

"Rwy'n ysgrifennydd eisteddfod ac yn trefnu penwythnos o eisteddfodau traddodiadol ers blynyddoedd ym Mhontrhydfendigaid,

a'r cystadlaethau traddodiadol hynny yn gweithio'n dda."

"Crefftau, Ffotograffiaeth, gwnio a choginio."

"Hoffi'r syniad o eisteddfod hybrid, os yw hyn yn ffordd o'i chynnal"

"Cyfle i gystadlu yn rhithiol"

"Testunau heriol, ond yn eitemau fyddai'n gymwys i'w cynnwys mewn cyngherddau."

"We have found that having a "Junior Children's Committee" as well as the Adult Committee has encouraged more children to compete. Each school (there are six in our locality) nominates pupils to represent their schools. The chosen pupils come along with their parents and bring along ideas collected from their class. They decide on the topics for the off-stage competitions and also discuss any additional competitions, on or off-stage, which their class have suggested. The Junior Committee also help on the eisteddfod day, by presenting prizes and stewarding."

Gwaith Cymdeithas Eisteddfodau Cymru

Mae'r pwyllgor a'r swyddogion yn awyddus iawn i adlewyrchu dyheadau pwyllgorau ar hyd a lled Cymru. Gofynnwyd felly am sylwadau sut allwn ni ystyried ymateb ymhellach i her yr oes gan gofio taw ein priod ffocws yw hybu a chefnogi.

Dyma rai o'r prif sylwadau -


- Hysbysebu mwy a hefyd dangos y canlyniadau ar gyfryngau cymdeithasol.
- Grid dyddiad cau Eisteddfodau! Rwyf yn aml yn rhy hwyr i anfon deunydd i mewn!
- Dal ati i gefnogi
- Cadw mlaen i fod yn gefnogol.
- Rhoi gwybod pan fydd eisteddfodau lleol yn dychwelyd i'r hyn oedden nhw cyn cofid
- Danfon e-bost yn atgoffa bod eisteddfodau lleol cyn hir
- Fel chi wedi neud - rhestrîr eisteddfota gyda'r manylion.
- Hysbysu am eisteddfodau sydd yn cael eu cynnal yn fyw a thynnu sylw at gystadlaethau rhithiol.

Cyrraedd cynulleidfa

Wrth rannu a chyhoeddi gwybodaeth mae'r Gymdeithas yn anelu i ddefnyddio cyfuniad o gyfryngau torfol, cymdeithasol yn ogystal â'n gwefan. Dyma sut clywyd am yr holiadur hwn.

SUT GLYWSOCH CHI AM YR HOLIADUR?

46 ymateb



RHAN 3: CYSYLLTU

Os hoffech drafod elfennau o'r arolwg ymhellach, mae croeso i chi gysylltu â:

Aled Wyn Phillips
Swyddog Datblygu
aled@steddfota.org neu 07974 747881
www.steddfota.org